**Yr Adran Cyfoeth Naturiol**
**Department for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Bob Pennaeth Cynllunio

Dyddiad: 5 Mai 2017

Annwyl Gyfaill,

**APELIADAU, COSTAU, SYMIAU DYDDIOL SAFONOL A GORCHMYNION PRYNU GORFODOL**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o'r newidiadau canlynol mewn deddfwriaeth ac o'r arweiniad a ddaeth i rym heddiw:

Apeliadau (gan gynnwys ceisiadau a alwyd i mewn)

Mae deg Offeryn Statudol wedi cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gwneud newidiadau yn y ffordd y mae Gweinidogion Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan yn ymdrin ag apeliadau, gan gynnwys ceisiadau a alwyd i mewn. Mae'r offerynnau statudol hyn yn cychwyn darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn disgrifio'r broses archwilio ac yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i weithdrefnau. Mae esboniad llawn o'r Offerynnau Statudol hyn ac i ba drafodion y maent yn berthnasol i'w gael yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

Bydd ceisiadau a ddaeth i law awdurdodau cynllunio lleol cyn 5 Mai 2017, ac yr apelir yn eu herbyn, neu a alwyd i mewn gan Weinidogion Cymru, yn parhau i gael eu penderfynu yn unol â rheolau a rheoliadau'r gweithdrefnau blaenorol (mae rhestr lawn o'r rhain wedi'i chynnwys ym mharagraff 3 yn Atodiad A i'r llythyr hwn). Bydd y rheolau hynny hefyd yn parhau i fod yn gymwys i apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodaeth a hysbysiadau cysylltiedig a gyhoeddwyd cyn 5 Mai 2017.

Mae Cyfarwyddyd hefyd wedi cael ei gynhyrchu sy'n dileu Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 o 5 Mai 2017 ymlaen. Mae'r Cyfarwyddyd i'w weld yn Atodiad B i'r llythyr hwn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line: 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Email: planning.directorate@wales.gsi.gov.uk
Ebost: planning.directorate@cymru.gsi.gov.uk

Costau

Mae canllawiau newydd, diweddar wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer dyfarniadau costau a chânt eu cynnwys fel atodiad newydd i'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn Adran 12. Mae'r canllawiau yn dirymu ac yn disodli Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 23/93: Dyfarnu Costau mewn Trafodion Cynllunio a Thrafodion Eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol) ( "y Cylchlythyr") a dônt i rym ar unwaith.

Mae'r atodiad newydd yn addasu'r canllawiau blaenorol i gyd-fynd â'r fframweithiau a'r gweithdrefnau deddfwriaethol presennol. Yn ogystal, mae'r canllawiau yn galluogi i geisiadau am gostau gael eu gwneud yn achos achosion sylwadau ysgrifenedig, yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill eu costau eu hunain ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru gychwyn dyfarniadau costau lle bo angen.

Ni yw statws na phwysau'r canllawiau newydd a nodir yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu yn llai o ganlyniad i'r newid mewn statws o ganllaw Cylchlythyr yn bennod yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu. Yn unol â hynny, mae 'Atodiad Adran 12: Dyfarniadau Costau' yn dwyn yr un pwysau â'r Cylchlythyr.

Mae'r canllawiau newydd sy'n ymwneud â dyfarniadau costau ar gael yma:

Symiau Dyddiol Safonol

Mae Offeryn Statudol wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n diweddaru'r symiau dyddiol safonol y gall Arolygwyr Cynllunio eu hadennill ar ran Gweinidogion Cymru am gynnal ymchwiliadau lleol a gweithdrefnau cymwys. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio cynlluniau datblygu lleol, ymholiadau mewn perthynas ag ystyried gwrthwynebiadau i Barthau Cynllunio Syml, Gorchmynion Prynu Gorfodol ac ymholiadau draenio tir.

Mae Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2017 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") o heddiw ymlaen. Bydd ymholiad lleol neu weithdrefn gymwys a ddechreuwyd cyn 5 Mai 2017 yn parhau i fod yn rhwym wrth y taliadau a nodir yn Rheoliadau 2011.

Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi'r symiau dyddiol safonol ar gyfer gorbenion ac amser Arolygwyr Cynllunio. Mae'r symiau dyddiol safonol newydd i'w gweld yn Atodiad C i'r llythyr hwn, ochr yn ochr â chostau staff cyffredinol y gellir eu hadennill.

Gorchmynion Prynu Gorfodol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymeradwyo dau Offeryn Statudol sy'n ymwneud â Gorchmynion Prynu Gorfodol. Daeth y rhain i rym ar 6 Ebrill 2017.

Mae'r Offerynnau Statudol hyn yn rhoi sylw i'r angen i ddiwygio a disodli ffurfiau i adlewyrchu newidiadau i drefn y datganiad breinio cyffredinol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016. Ffordd o gaffael tir dan y drefn prynu gorfodol yw trefn y datganiad breinio cyffredinol.

Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) (Cymru) 2017 sy'n rhagnodi'r ffurfiau at ddibenion Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981.

Mae Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2017 yn diwygio Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2014.

Mae’r ddeddfwriaeth uchod sy’n ymwneud ag apeliadau, symiau dyddiol safonol a gorchmynion prynu gorfodol, ynghyd â’r Memoranda Esboniadol a’r Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig ar gael yn http://cynulliad.cymru.

Yn gywir,

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Llywodraeth Cymru**

**Atodiad A**

Mae’r atodiad hwn yn disgrifio’r prif newidiadau yn y ddeddfwriaeth bresennol.

1. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2017

1.1 Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau trefniadol i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015.

1.2 Os oes ffi yn daladwy am gais tybiedig ac os nas cyflwynir gyda hysbysiad o apêl, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr apelydd yn nodi’r ffi ofynnol a phryd y mae’n rhaid ei thalu.

1.3 Mae’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn mynnu bod yn rhaid i’r hysbysiad hwn hefyd gael ei anfon at yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol (“ACLl”) ar yr un pryd â’r apelydd a bod yn rhaid i’r ACLl perthnasol hefyd hysbysu Gweinidogion Cymru pan fydd y ffi wedi cael ei thalu, neu os nad yw’r apelydd wedi talu’r ffi o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad.

2. Gorchymyn Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu’r Weithdrefn) (Cymru) (Diwygio) 2017

2.1 Mae’r Gorchymyn yn gwneud diwygiadau i adran 21B(7) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 i ychwanegu apeliadau yn erbyn hysbysiadau tramgwydd sylweddau peryglus at y rhestr gyfredol o drafodion y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru bennu’r weithdrefn ar eu cyfer. Gall y weithdrefn fod yn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, neu unrhyw gyfuniad o’r tri hynny os ystyrir bod hynny’n briodol.

3. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

3.1 Mae’r Rheoliadau yn disodli rheolau a rheoliadau’r gweithdrefnau presennol sy’n disgrifio’r weithdrefn ar gyfer apeliadau a cheisiadau a elwir i mewn. O ganlyniad, maent yn dirymu’r offerynnau statudol canlynol:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2015;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003;
- Rheolau Apeliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003;

- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003.
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014; a
- Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014.

3.2 Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i'r trafodion canlynol:

<u>"Apeliadau cynllunio ac apeliadau cysylltiedig"</u>

(a) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio neu fethiant i wneud penderfyniadau o'r fath (gyda darpariaeth ar wahân ar gyfer apeliadau gan Ddeiliaid Tai (HAS) ac apeliadau Masnachol Bach (CAS))[1];
(b) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth neu fethiant i wneud penderfyniadau o'r fath[2];
(c) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau caniatâd sylweddau peryglus neu fethiant i wneud penderfyniadau o'r fath[3];
(d) Apeliadau yn erbyn gwrthod neu fethiant i wneud penderfyniad ar geisiadau am dystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon[4];
(e) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau caniatâd hysbysebu lle maent yn ymwneud â chymeradwyaeth sy'n ddarostyngedig i amodau neu fethu â phenderfynu ar gais am ganiatâd datganedig ar gyfer hysbysebion (gwneir darpariaeth ar wahân dan CAS am wrthod caniatâd hysbysebu)[5]; ac
(f) Apeliadau yn erbyn penderfyniadau neu fethiant i wneud penderfyniadau o'r fath am ganiatâd dan orchmynion diogelu coed[6].

"Apeliadau hysbysiadau Gorfodi ac apeliadau cysylltiedig"

(g) Apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi cynllunio[7];
(h) Apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth[8];
(i) Apeliadau yn erbyn hysbysiadau tramgwydd sylweddau peryglus[9];
(j) Apeliadau yn erbyn gorfodi dyletswyddau ynglŷn â phlannu coed newydd[10];
(k) Apeliadau yn erbyn hysbysiadau sy'n mynnu cynnal a chadw tir yn briodol[11]; ac
(l) Apeliadau yn erbyn hysbysiadau dirwyn i ben hysbysebion[12].

---

[1] A.78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[2] A.20 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
[3] A.21 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.
[4] A.195 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[5] A.78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i cymhwysir gan reoliadau a wneir dan adran 220 o'r Ddeddf honno)
[6] A.78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i cymhwysir gan reoliadau a wneir dan adran 198(3)(c) o'r Ddeddf honno).
[7] A.174 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[8] A.39 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
[9] A.25 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.
[10] A.208 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.
[11] A.217 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.
[12] A.78 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (fel y'i cymhwysir gan reoliadau a wneir dan adran 220 o'r Ddeddf honno).

"Atgyfeiriadau at Weinidogion Cymru (ceisiadau a alwyd i mewn)"

(m) Ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru[13];
(n) Ceisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig a chaniatâd ardaloedd cadwraeth sy'n cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru[14]; a
(o) Ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus sy'n cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru[15].

3.3 Mae'r Rheoliadau'n gwneud y prif newidiadau canlynol i'r broses apelio a galw i mewn:

- Cywasgu'r amserlen gychwynnol ar gyfer apeliadau, sy'n gofyn am amseroedd ymateb byrrach ac yn annog sylwadau mwy penodol (Rheoliadau 15, 16, 17, 23 a 24);

- Cyfyngu ar godi materion newydd yn ystod trafodion apêl (ac eithrio dan amgylchiadau penodol) (Rheoliad 11);

- Galluogi Gweinidogion Cymru i ofyn am sylwadau neu wybodaeth bellach, wedi'u cyfyngu i nifer geiriau penodol, gan bartïon ar unrhyw adeg, gan osgoi'r angen am wrandawiad neu ymchwiliad, lle bo modd (Rheoliad 9);

- Galluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin ag apeliadau drwy gyfuniad o weithdrefnau, yn hytrach na drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau neu ymchwiliadau yn unig, os ystyria Gweinidogion Cymru fod hynny'n briodol (Rheoliadau 25, 26 a 35);

- Caniatáu dim ond y rheini a wahoddwyd i siarad mewn gwrandawiad neu ymchwiliad (Rheoliadau 31 a 38);

- Galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn amserlen y trafodion neu amrywio amserlen ymchwiliad ar unrhyw adeg (Rheoliadau 7 a 41); ac

- Os oes ffi yn daladwy, ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd ynglŷn â'r apêl nes bod y ffi wedi cael ei thalu, neu nes bod y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru ar gyfer talu'r ffi wedi dod i ben (Rheoliad 15).

4. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2017

4.1 Mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2017. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol, ar gyfer apeliadau cynllunio (ac eithrio Deiliaid Tai ac Apeliadau Masnachol Bach), i apelwyr gyflwyno'r holl wybodaeth a'r dystiolaeth y maent yn bwriadu dibynnu arnynt ("datganiad achos llawn") gyda'u hysbysiad o apêl i

[13] A.77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[14] A.12 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
[15] A.20 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

Weinidogion Cymru ac anfon copi o'r hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i'r ACLl perthnasol.

4.2 Mae hefyd yn darparu, pan fydd Gweinidogion Cymru yn galw cais i mewn, y gall ymgeiswyr ddewis cyflwyno datganiad achos llawn cyn pen 4 wythnos o'r hysbysiad cyfeirio, os ydynt yn dymuno. Ni fydd cyfle pellach i'r ymgeisydd gyflwyno datganiad achos llawn.

4.3 Er cysondeb ag apeliadau eraill, mae'r Gorchymyn yn pennu terfyn amser ar gyfer apeliadau os ydynt yn ymwneud â gwrthod cais am dystysgrif cyfreithlondeb, felly rhaid i apêl gael ei gwneud cyn pen 6 mis o'r penderfyniad. Nid yw apeliadau yn erbyn methiant i benderfynu ar dystysgrifau cyfreithlondeb yn rhwym wrth y terfyn amser hwn.

4.4 Mae'r Gorchymyn hefyd yn rhagnodi'r amgylchiadau lle gall cais gael ei amrywio ar ôl i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno. Ni ellir ond diwygio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl i gywiro gwall a fydd yn sicrhau cysondeb yn y wybodaeth a gynhwysir yn y cais a'r dogfennau cysylltiedig. Ni chaiff y gwall sy'n cael ei gywiro newid sylwedd y cais. At hynny, mae'r Gorchymyn yn rhagnodi, os caiff cais ei amrywio, y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ymgynghori pellach arno fel yr ystyriant yn briodol.

5. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2017

5.1 Mae'r Rheoliadau yn dirymu a disodli, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003.

5.2 Mae'r Rheoliadau yn datgan nodyn esboniadol diwygiedig sy'n cael ei gyflwyno gyda hysbysiadau gorfodi a gyflwynir gan ACLau.

5.3 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i apelyddion, o safbwynt apeliadau hysbysiad gorfodi cynllunio, apeliadau hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig, apeliadau hysbysiad plannu coed newydd ac apeliadau yn erbyn hysbysiadau sy'n gofyn am gynnal a chadw tir yn briodol, gyflwyno i Weinidogion Cymru ddatganiad achos llawn gyda'u hysbysiad o apêl. Os nad oes datganiad achos llawn yn cael ei gyflwyno gyda'r hysbysiad o apêl, mae gan apelyddion 7 diwrnod arall i gyflwyno un (neu unrhyw gyfnod hwy y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ganiatáu, cyn belled â bod hyn yn cael ei awdurdodi ganddynt yn ysgrifenedig cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y bydd yn weithredol). Nid yw'r cyfnod penodol hwn yn berthnasol yn achos apeliadau hysbysiad plannu coed newydd.

5.4 Mae'n ofynnol i'r apelydd hefyd anfon copi o'i hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i'r ACLl perthnasol.

6. Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2017

6.1 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad achos llawn gael ei gyflwyno gyda'r hysbysiad o apêl caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth ac i apelyddion anfon copi o'u hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i'r ACLl perthnasol.

6.2 Maent hefyd yn darparu, pan gaiff cais ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru, y gall ymgeiswyr ddewis cyflwyno datganiad achos llawn cyn pen 4 wythnos o'r hysbysiad

cyfeirio, os ydynt yn dymuno. Ni fydd cyfle pellach i’r ymgeisydd gyflwyno datganiad achos llawn.

6.3 Mae’r Rheoliadau yn rhagnodi’r amgylchiadau lle gall cais gael ei amrywio ar ôl i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno. Ni ellir ond diwygio cais am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl i gywiro gwall a fydd yn sicrhau cysondeb yn y wybodaeth a gynhwysir yn y cais a’r dogfennau cysylltiedig. Ni chaiff y gwall sy’n cael ei gywiro newid sylwedd y cais. At hynny, mae’r Rheoliadau yn rhagnodi, os caiff cais ei amrywio, y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ymgynghori pellach arno fel yr ystyriant yn briodol.

7. Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) (Diwygio) 2017

7.1 Mae’r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad achos llawn gael ei gyflwyno gyda hysbysiad o apêl caniatâd sylweddau peryglus ac i apelyddion anfon copi o’u hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i’r awdurdod sylweddau peryglus perthnasol.

7.2 Mae’r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan gaiff cais am ganiatâd sylweddau peryglus ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru, y gall ymgeiswyr ddewis cyflwyno datganiad achos llawn cyn pen 4 wythnos o’r hysbysiad cyfeirio, os ydynt yn dymuno. Ni fydd cyfle pellach i’r ymgeisydd gyflwyno datganiad achos llawn.

7.3 Mae’r Rheoliadau yn rhagnodi’r amgylchiadau lle gall cais gael ei amrywio ar ôl i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno. Ni ellir ond diwygio cais am ganiatâd sylweddau peryglus ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl i gywiro gwall a fydd yn sicrhau cysondeb yn y wybodaeth a gynhwysir yn y cais a’r dogfennau cysylltiedig. Ni chaiff y gwall sy’n cael ei gywiro newid sylwedd y cais. At hynny, mae’r Rheoliadau yn rhagnodi, os caiff cais ei amrywio, y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ymgynghori pellach arno fel yr ystyriant yn briodol.

7.4 Mae’r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd, mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn hysbysiadau tramgwydd sylweddau peryglus, i ddatganiad achos llawn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Os nad oes datganiad achos llawn yn cael ei gyflwyno gyda’r hysbysiad o apêl, mae gan apelyddion 7 diwrnod arall i gyflwyno un (neu unrhyw gyfnod hwy y bydd Gweinidogion Cymru yn caniatáu, cyn belled â bod hyn yn cael ei awdurdodi ganddynt yn ysgrifenedig cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dramgwydd sylweddau peryglus fel y dyddiad y bydd yn weithredol). Mae’n ofynnol i’r apelydd hefyd anfon copi o’r hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i’r awdurdod sylweddau peryglus perthnasol.

8. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) (Diwygio) (Cymru) 2017

8.1 Mae’r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad achos llawn gael ei gyflwyno gyda hysbysiad o apêl yn erbyn gwrthod cais am ganiatâd i wneud gwaith ar goeden dan orchymyn diogelu coed, ceisiadau sy’n cael eu cymeradwyo dan amodau, ceisiadau i amrywio neu ddileu amodau, ceisiadau am ganiatâd sy’n ofynnol gan gyfarwyddyd gorchymyn diogelu coed a methiant i benderfynu.

8.2 Mae’r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i apelydd anfon copi o’u hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i’r ACLl perthnasol.

9. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Diwygio) (Cymru) 2017

9.1 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad achos llawn gael ei gyflwyno gyda hysbysiad o apêl yn achos apeliadau yn erbyn caniatâd datganedig yn ddarostyngedig i amodau, pan fo ACLl wedi methu â phenderfynu ar gais ac mewn perthynas â hysbysiadau dirwyn i ben. Fel o'r blaen, nid oes gofyn cyflwyno datganiad achos llawn mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi caniatâd datganedig i arddangos hysbyseb.

9.2 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i apelydd anfon copi o'u hysbysiad o apêl a datganiad achos llawn i'r ACLl perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

10. Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) 2017

10.1 Mae'r Gorchymyn Cychwyn yn dwyn i rym, o safbwynt apeliadau, y darpariaethau canlynol:

- Adran 47 (dim amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad cynllunio);
- Adran 48 (apêl yn erbyn hysbysiad o safbwynt tir sy'n cael effaith andwyol ar amwynder);
- Adran 50 (gweithdrefn ar gyfer trafodion penodol); ac
- Adran 51 a pharagraffau 15 i 19, 21, 23, 25 a 27 o Atodlen 5 (costau a gweithdrefn apeliadau ayb. diwygiadau pellach).

10.2 Mae adran 47 yn mewnosod isadrannau newydd i'r adrannau perthnasol o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 i ragnodi unwaith y bydd hysbysiad o apêl wedi ei gyflwyno, na chaniateir i gais gael ei amrywio, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol a bod yn rhaid ymgynghori ymhellach ar unrhyw amrywiad fel y tybia Gweinidogion Cymru yn briodol.

10.3 Mae adran 48 yn diwygio adran 217 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i drosglwyddo cyfrifoldeb am wneud penderfyniad ynglŷn ag apeliadau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir dan adran 215 gan y Llysoedd Ynadon i Weinidogion Cymru.

10.4 Mae adran 50 yn mewnosod adran 323A yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac yn disodli adran 323 mewn perthynas â Chymru. Mae adran 323A yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, drwy reoliadau, y weithdrefn ar gyfer apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn yr ymdrinnir â nhw drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad.

10.5 Mae adran 51 yn cyflwyno Atodlen 5, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol, technegol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chostau a'r weithdrefn ar gyfer apeliadau.

**Atodiad B**

# CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (RHEOLI HYSBYSEBION) (DILEU) (CYMRU) 2017

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan reoliadau 22 a 26 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(**16**) ac sy'n awr yn arferadwy ganddynt([17]), yn rhoi'r cyfarwyddyd canlynol.

1. Yn y cyfarwyddyd hwn—

Mae "Rheoliadau 1992" yn golygu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992;

Mae i "apêl caniatâd hysbysebu" yr ystyr a roddir iddo drwy reoliad 3(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017;

Mae i "awdurdod cynllunio lleol" yr ystyr a roddir iddo drwy reoliad 2(2A) o Reoliadau 1992.

2. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 5 Mai 2017 ac mae'n berthnasol i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

3. Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 yn cael ei ddileu ac eithrio y bydd yn parhau i fod yn gymwys pan wneir apêl, heblaw apêl caniatâd hysbysebu, i Weinidogion Cymru dan reoliad 15(1) neu (3) o Reoliadau 1992 mewn perthynas ag—

(a) cais am ganiatâd datganedig a wnaed cyn 5 Mai 2017;

(b) hysbysiad dirwyn i ben a gafodd ei gyflwyno gan awdurdod cynllunio lleol dan reoliad 8 o Reoliadau 1992 cyn 5 Mai 2017.

Un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

---

([16]) O.S. 1992/666.

([17]) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 a 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi (c. 32).

**Atodiad C**

# Symiau Dyddiol Safonol

Yn berthnasol i weithdrefnau cymwys yn unol ag adran 303A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") ac Ymchwiliadau a gynhelir dan adran 42 o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 ("Deddf 1986").

| | | **Lefel staff (gan gynnwys gorbenion)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Arolygydd Cynllunio** | *Cyfarwydd dwr*** | *Arweinydd Is-grŵp*** | *Swyddog Cynllunio*** | *Staff Gweinyddol*** |
| **Cyfnod** | *5 Mai 2017 - 31 Mawrth 2018* | £508 | £635 | £558 | £312 | £283 |
| | *1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019* | £513 | £641 | £563 | £315 | £285 |
| | *1 Ebrill 2019 ymlaen* | £518 | £647 | £568 | £318 | £287 |

* Nodir yn Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2017.

** Mae adran 303A(2)-(4) o Ddeddf 1990 ac adran 42(2) o Ddeddf 1986 yn pennu y caiff Gweinidogion Cymru adennill y cyfan, neu ran o'r costau yr ânt iddynt (h.y. y gost weinyddol gyfan, sy'n cynnwys costau staff cyffredinol a gorbenion).

Noder y bydd Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011 yn parhau i fod mewn grym o safbwynt trafodion a agorwyd cyn 5 Mai 2017, ac sy'n dal i fynd rhagddynt.